

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu(Cymru) (Coronafeirws) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**01 Tachwedd 2021**

## **CYNNWYS**

<b>RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL</b>	<b>3</b>
<i>DISGRIFIAD</i> .....	3
<i>MATERION O DDIDDORDEB ARBENNIG I'R PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD</i> .....	3
<i>CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL</i> .....	4
<i>DIBEN Y DDEDDFWRIAETH A'R EFFAITH Y BWRIEDIR IDDI EI CHAEL</i>	4
<i>YMGYNGHORI</i> .....	6
<b>RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL</b>	<b>7</b>
<i>YR OPSIYNAU</i> .....	7
<i>COSTAU A MANTEISION</i> .....	7
<i>DEWIS OPSIWN</i> .....	8
<i>DADANSODDI EFFEITHIAU ERAILL</i> .....	8

## **RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **Disgrifiad**

1. Mae ardrethi annomestig yn dreth leol sy'n codi refeniw ar eiddo a ddefnyddir at ddibenion annomestig, er enghraifft adeiladau cyhoeddus, siopau, ffatrioedd, swyddfeydd, cyfleusterau hamdden, ysgolion ac ysbytai. Yn 2021-22, amcangyfrifir y bydd ardrethi annomestig yng Nghymru yn cynhyrchu dros £1.1 biliwn (net). Caiff yr holl gyllid ei ailddosbarthu i lywodraeth leol i helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol yng Nghymru.
2. Drwy gydol y pandemig mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi bod yn delio â nifer cynyddol o apelau ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r apelau hyn wedi'u gwneud o dan bennawd Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau a'u cyflwyno gan dalwyr ardrethi gyda'r bwriad o leihau eu hatebolrwydd ardrethi annomestig ar y sail bod mesurau a chyfyngiadau'r llywodraeth a osodwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar werthoedd ardrethol eu heiddo.
3. Mae *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021* (y Rheoliadau) yn egluro'r tybiaethau sydd i'w gwneud wrth bennu gwerth ardrethol hereditament yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988).
4. Mae'r offeryn statudol hwn yn nodi na ddylid ystyried mesurau penodol wrth bennu gwerth ardrethol pan ystyrir eu bod yn un o'r canlynol:
  - a. Ymateb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu'r ddwy Lywodraeth i'r coronafeirws;
  - b. Gofynion yn sgil cyngor neu arweiniad gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig neu gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu
  - c. Mesurau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

### **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

5. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau'n glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod. Mae hyn yn angenrheidiol o ystyried y risg uniongyrchol i gyllid cyhoeddus. Daeth yr offeryn statudol hwn i rym ar y diwrnod y'i gosodwyd.
6. Cydnabyddir, yn dilyn hynt ddisgwyliedig y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil), y rhoddir sylw i apelau perthnasol yn ôl-weithredol ac yn y dyfodol ac na fydd angen y Rheoliadau mwyach. Os bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol, bydd angen dirymu'r Rheoliadau hyn.

## **Cefndir deddfwriaethol**

7. Mae'r Bil yn diwygio adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n nodi sut y dylid cyfrifo atebolrwydd talwr ardrethi ar gyfer ardrethi annomestig ar eiddo sydd wedi'i feddiannu. Cyfrifir yr atebolrwydd ardrethi annomestig sylfaenol ar gyfer eiddo trwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo â'r lluosydd.
8. Mae adran 56 o Ddeddf 1988 yn cyflwyno Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae'r Atodlen yn nodi'r darpariaethau sydd i'w cymhwysu wrth bennu gwerth ardrethol hereditamentau annomestig.
9. Mae paragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn cynnwys swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi rhagdybiaethau sydd i'w cymhwysu i ddosbarth rhagnodedig o hereditament, wrth bennu ei werth ardrethol. Mae rheoliadau sy'n nodi amodau ar gyfer apelio yn erbyn gwerth ardrethol hereditament yn dod o fewn y pŵer hwn.
10. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym mharagraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae Ddeddf 1988 yn ddeddfiad y cyfeirir ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw ac a drosglwyddwyd ganddo gan Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedyn i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
11. Mae'r Rheoliadau'n dilyn y weithdrefn negyddol.

## **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

### Prif ddiben y ddeddfwriaeth

12. Prif ddiben yr offeryn statudol hwn yw atal apelau pellach sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19 rhag cael eu cyflwyno, er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus. Ar gyfer 2020-21, amcangyfrifwyd bod apelau a gyflwynwyd gan gyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau yn ymwneud â mesurau COVID-19 wedi peri risg o rhwng £70m a £100m i refeniw ardrethi annomestig yng Nghymru.

### Y broses apelio

13. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn un o asiantaethau gweithredol Cyllid a Thollau EM ac mae'n gyfrifol am bennu gwerth ardrethol pob eiddo annomestig er mwyn cyfrifo eu hatebolrwydd ardrethi. Gall talwyr ardrethi wneud apêl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os ydynt yn credu bod eu gwerth ardrethol yn anghywir.
14. Un sail o'r fath ar gyfer apelio yw ar sail Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Yn hanesyddol, mae apelau Newid Perthnasol mewn

Amgylchiadau wedi'u cysylltu â digwyddiadau untro, megis llifogydd neu waith ffordd, yn hytrach na newidiadau mewn amodau ar draws y farchnad. Ystyrir amodau ehangach y farchnad fel rhan o'r broses statudol o ailbrisiu eiddo annomestig. Daw'r ailbrisiad nesaf i rym ar 1 Ebrill 2023 ar sail gwerthoedd a aseswyd ar 1 Ebrill 2021.

15. Yn ystod y pandemig bu cynnydd sylweddol yn nifer yr apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau, a oedd yn dweud bod cyfyngiadau COVID-19 yn Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Yn ogystal â pheri risg i gyllid cyhoeddus a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol, mae lefel yr apelau yn creu heriau gweinyddol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Priso Cymru ac yn creu ansicrwydd i dalwyr ardrethi.

### Cymorth coronafeirws

16. Drwy gydol y pandemig, mae talwyr ardrethi wedi cael cymorth â'u hatebolrwydd ardrethi drwy becyn helaeth o gynlluniau rhyddhad. Os nad yw cymorth wedi bod ar gael drwy ryddhad ardrethi annomestig, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lleihau caledi economaidd drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig a'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi'u cynllunio i dargedu cymorth mewn modd sydd o fudd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan effeithiau economaidd y pandemig.

### Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)

17. Er mwyn ymdrin â phob apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 a wnaed ers dechrau'r pandemig, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil. Bydd hwn yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yn ôl-weithredol, a bydd yn atal pob apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19.
18. Cyflwynwyd y Bil gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 12 Chwefror 11 a gerbron Tŷ'r Arglwyddi ar 24 Mehefin 2020. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 21 Medi. Disgwylir i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad erbyn 18 Tachwedd. Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu ar hyn o bryd ar gyfer 23 Tachwedd.
19. Mae'r Rheoliadau wedi'u gwneud i atal rhagor o apelau perthnasol tra bo'r Bil yn mynd drwy Senedd y DU.
20. Cydnabyddir, os caiff y Bil ei ddeddfu, y byddai rhai darpariaethau yn y Ddeddf yn disodli'r Rheoliadau. Os digwydd hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau pellach i ddirymu'r Rheoliadau hyn. Os bydd y Bil yn methu, bydd y Rheoliadau'n parhau i fod ar waith.

## Ymgynghori

21. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn ar agweddau technegol fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 16 Mehefin 2021 a daeth i ben ar 27 Medi 2021. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref 2021 ac mae ar gael [yma](#).
22. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ei anfon hefyd at y sefydliadau canlynol:
  - Arweinwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru
  - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
  - Tribiwnlys Prisio Cymru
  - Asiantaeth y Swyddfa Brisio
  - Y Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio
  - Aelodau o Fforwm Talwyr ardrethi Cymru
23. Cafwyd chwech o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan unigolion, cynrychiolwyr llywodraeth leol, grwpiau sy'n cynrychioli talwyr ardrethi, busnesau unigol a chyrff proffesiynol.
24. Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud ag agweddau technegol y Rheoliadau drafft fel rhan o'r broses ymgynghori.

## **RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **Yr Opsiynau**

#### **Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

Ni fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud.

Byddai hyn yn galluogi talwyr ardrethi i barhau i gyflwyno apelau ar sail Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID19.

#### ***Opsiwn 2 – Atal apelau pellach sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19***

Byddai rheoliadau'n egluro o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau a byddai'n diystyru materion sy'n ymwneud â COVID-19.

Byddai'r dull hwn yn atal rhagor o apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19 rhag cael eu cyflwyno.

### **Costau a manteision**

#### ***Opsiwn 1 – Gwneud Dim***

##### Costau

Byddai costau parhaus yn deillio o weinyddu'r apelau cynyddol. Nid yw graddfa apelau pellach yn hysbys oherwydd newid amodau masnachu, cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac amgylchiadau economaidd ehangach. Felly, nid yw'n bosibl amcangyfrif maint y risg, ond os bydd apelau'n parhau i gael eu caniatáu byddai'r risg i gyllid cyhoeddus yn parhau. Amcangyfrifir bod y risg hon, ar gyfer 2020-21, yn cyfateb i rhwng £70m a £100m ar draws dros 15,000 o apelau.

Wrth wneud dim, byddai risg ariannol barhaus. Nid yw maint y risg hon yn hysbys ond byddai apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau llwyddiannus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael effaith negyddol ar gyllid cyhoeddus Cymru.

Mae ardrethi annomestig yn darparu ffrwd refeniw hanfodol i Lywodraeth Cymru ac, yn ei thro, i lywodraeth leol yng Nghymru. Os na fydd y Rheoliadau ar waith, mae perygl parhaus y bydd cyllid cyhoeddus yn cael ei leihau'n sylweddol o ganlyniad i apelau ardrethi annomestig sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae ansicrwydd cyllidebol hirdymor posibl hefyd oherwydd y broses hir o setlo apelau.

## Manteision

Byddai'r opsiwn i dalwyr ardrethi gyflwyno apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn aros yr un fath. Mae'r broses apelio yn rhan annatod o'r system ardrethi annomestig ac mae'n helpu i gynnal hyder y cyhoedd yn y system.

### ***Opsiwn 2 – Atal apelau pellach sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19***

## Costau

Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae cost cyfle bosibl i dalwyr ardrethi a allai fod wedi bod yn ystyried cyflwyno apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan y byddant efallai wedi treulio amser yn casglu tystiolaeth i gefnogi apêl, ac efallai wedi talu ffioedd i asiant i'w cynrychioli. Bydd y mathau hyn o apelau yn cael eu hatal gan y Rheoliadau.

## Manteision

Mae'r Rheoliadau'n atal y risg o golli referniw yn y dyfodol oherwydd apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae hyn yn cynnal y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn rhoi mwy o sicrwydd o ran rheoli cyllidebau Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

Byddai atal apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y dyfodol hefyd yn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i brosesu apelau sy'n bodoli eisoes mewn modd amserol, gan leihau costau gweinyddol prosesu apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y dyfodol. Byddai hefyd yn galluogi'r Asiantaeth i ganolbwyntio ar gynnal Ailbrisiad Ardrethi Cenedlaethol 2023. Bydd yr ailbrisio yn ystyried effaith ehangach COVID-19 ar werth ardrethol eiddo annomestig.

## **Dewis Opsiwn**

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2, yn enwedig o ran diogelu cyllid cyhoeddus yn y dyfodol, yn drech na manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

## **Dadansoddi effeithiau eraill**

### Hyrwyddo Cyfle Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)

Mae sicrhau bod effeithiau economaidd ehangach yn cael eu cynnwys yn y broses ailbrisio yn helpu i sicrhau bod atebolrwydd ardrethi yn cael ei ddsbarthu'n deg rhwng talwyr ardrethi. Mae cyfyngu ar effaith bosibl apelau yn y dyfodol yn sicrhau bod referniw ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yn cael ei gynnal. Mae llawer



o wasanaethau lleol yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac effeithiau tlodi yn ein cymunedau.

#### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant

Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

#### Y Gymraeg

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

#### Cydraddoldeb

Ni nodwyd effeithiau penodol, cadarnhaol na negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae cynnal y sylfaen dreth annomestig yn cyfrannu at y nodau llesiant Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal a hefyd at dwf economaidd integredig hirdymor.

#### Yr effaith ar y sector gwirfoddol

Nid oes unrhyw effeithiau ehangach wedi'u nodi.

#### Asesiad cystadleuaeth

Wrth ddrafftio'r Offeryn Statudol hwn, rydym wedi cymhwyso'r prawf hidlo cystadleuaeth.

Diben y system apelio yw mynd i'r afael â gwallau prisio a allai effeithio ar atebolrwydd talwyr ardrethi am ardrethi annomestig. Ystyrir bod amodau ar draws y farchnad, megis mesurau COVID-19, y tu allan i gwmpas apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau.

Bydd y Rheoliadau'n effeithio ar dalwyr ardrethi ar draws gwahanol sectorau mewn ffordd gyson, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

#### Adolygiad ôl-weithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y pandemig ar dalwyr ardrethi a bydd yn ystyried cymorth parhaus yn ôl yr angen.